# <u>Data Cyflogaeth 2022-23</u>

## <u>Ein Cyfrifoldeb</u>

Ein cyfrifoldeb ni o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw sicrhau ein bod yn darparu gwybodaeth am sut rydym yn defnyddio'r data a gasglwn a sut mae'n berthnasol i nodweddion gwarchodedig. Rydym yn casglu gwybodaeth ddemograffig am ein staff i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac y gallant gael gafael ar unrhyw gymorth neu adnoddau y gallai fod eu hangen arnynt.

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein gwybodaeth am grwpiau o staff sy'n dod o dan bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Y nodweddion gwarchodedig hyn yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ethnigrwydd
- Rhywedd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Crefydd
- Cyfeiriadedd Rhywiol

## <u>Cynnwys y Cyhoeddiad</u>

Rydym wedi cyhoeddi ein data yn unol â'r gofynion fformat a chynnwys a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae ein data yn darparu gwybodaeth am y staff yn ein cyflogaeth ar 31/3/2023. Darperir yr wybodaeth hon gan staff pan fyddant yn diweddaru eu manylion ar ein Cofnod Staff Electronig (ESR). O'r herwydd, mae'r data hwn yn dibynnu ar y wybodaeth y mae staff yn dewis ei darparu. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn parhau i wella ansawdd y data hwn drwy ein hymgyrch Data Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

## <u>Ein Canfyddiadau</u>

### Proffil Staff

Mae gennym 17,221 aelod o staff mewn swyddi ers 31 Mawrth 2023. Ein tri grŵp staff mwyaf yw ‘Nyrsio a Bydwreigiaeth Gofrestredig’, ‘Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol’, a ‘Gweinyddol a Chlerigol’. Ein lleiaf yw ‘Myfyrwyr’.

### Oedran

Mae Tabl 1 yn rhoi manylion am oedran ein gweithlu. Ein grŵp oedran mwyaf yw 31-35, ac yna 36-40. Ein grŵp oedran lleiaf yw 71+.

**Tabl 1**

| Band Oedran | Cyfrif pennau | Canran % |
|---|---|---|
| <=20 Mlynedd | 114 | 0.66 |
| 21-25 | 1254 | 7.28 |
| 26-30 | 2022 | 11.74 |
| 31-35 | 2311 | 13.42 |
| 36-40 | 2183 | 12.68 |
| 41-45 | 2028 | 11.78 |
| 46-50 | 1971 | 11.45 |
| 51-55 | 2107 | 12.24 |
| 56-60 | 1855 | 10.77 |
| 61-65 | 1048 | 6.09 |
| 66-70 | 241 | 1.40 |
| >=71 Mlynedd | 87 | 0.51 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17221** | **100.00** |

### Anabledd

Mae gan staff y dewis i ddatgan unrhyw anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor a fyddai'n gymwys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Tabl 2 yn dangos ein data. Mae cyfanswm o 2% o staff wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon, ac nid yw 23.5% o staff wedi cwblhau'r rhan hon o ESR. Mae cyfanswm o 5.9% o staff wedi dewis datgelu eu hanabledd.

**Tabl 2**

| Anabledd | Cyfrif pennau | Canran % |
|---|---|---|
| Nac oes | 11752 | 68.2 |
| Amhenodol | 4043 | 23.5 |
| Oes | 1018 | 5.9 |
| Heb ei ddatgan | 340 | 2.0 |
| Gwell gen i beidio ag ateb | 68 | 0.4 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17221** | **100.00** |

### Ethnigrwydd

Mae ethnigrwydd hefyd yn gategori sy'n dibynnu ar hunanddatganiad staff i ni ei fesur. Mae Tabl 3 yn dangos ein data. Mae cyfanswm o 91% o staff wedi dewis rhoi'r wybodaeth hon i ni.

**Tabl 3**

| Grŵp Ethnig | Cyfrif pennau |
|---|---|
| A Gwyn - Prydeinig | 9782 |
| B Gwyn - Gwyddelig | 144 |
| C Gwyn – Unrhyw gefndir Gwyn arall | 465 |
| C2 Gwyn o Ogledd Iwerddon | 3 |
| C3 Gwyn Amhenodol | 1679 |
| CA Gwyn Seisnig | 55 |
| CB Gwyn Albanaidd | 11 |
| CC Gwyn Cymreig | 788 |
| CD Gwyn Cernyweg | 4 |
| CF Gwyn Groegaidd | 3 |
| CH Gwyn Twrcaidd | 1 |
| CK Gwyn Eidalaidd | 3 |
| CP Gwyn Pwylaidd | 8 |
| CV Gwyn Serbiaidd | 1 |
| CX Gwyn Cymysg | 8 |
| CY Gwyn Ewropeaidd Arall | 32 |
| D Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 79 |
| E Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 45 |
| F Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 81 |
| G Cymysg - Unrhyw gefndir cymysg arall | 73 |
| GA Cymysg - Du ac Asiaidd | 2 |
| GC Cymysg - Du a Gwyn | 1 |
| GD Cymysg - Tsieineaidd a Gwyn | 2 |
| GE Cymysg - Asiaidd a Tsieineaidd | 2 |
| GF Cymysg - Arall / Amhenodol | 6 |
| H Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd | 755 |
| J Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd | 107 |
| K Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd | 55 |
| L Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 257 |
| LA Asiaidd Cymysg | 4 |
| LB Asiaidd Pwnjabeg | 1 |
| LD Asiaidd Dwyrain Affrica | 2 |
| LE Asiaidd Sri Lankaidd | 7 |
| LF Asiaidd Tamil | 1 |
| LG Asiaidd Sinhalesaidd | 1 |
| LH Asiaidd Prydeinig | 11 |
| LK Asiaidd Amhenodol | 11 |
| M Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd | 57 |
| N Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd | 221 |
| P Du neu Ddu Prydeinig - Unrhyw gefndir Du arall | 24 |
| PA Du Somalïaidd | 3 |

| | |
|---|---|
| PB Du Cymysg | 1 |
| PC Du Nigeraidd | 7 |
| PD Du Prydeinig | 11 |
| PE Du Amhenodol | 1 |
| R Tsieineaidd 62 | |
| S Unrhyw grŵp ethnig arall 162 | |
| SA Fietnameaidd | 1 |
| SB Japaneaidd | 1 |
| SC Ffilipinaidd | 87 |
| SD Malaysiaidd | 4 |
| SE Arall Penodol | 10 |
| Amhenodol | 1551 |
| Z Heb ei ddatgan | 528 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17221** |

### Rhywedd

Mae Tabl 4 yn dangos ein dadansoddiad o rywedd yn ôl grŵp staff. Mae gennym 76.2% o aelodau benywaidd o staff a 23.8% o staff gwrywaidd. Ar gyfer yr adran hon, dim ond pwyntiau data gwrywaidd a benywaidd yr ydym yn eu casglu ar ESR. **Tabl 4**

| Rhywedd | Cyfrif pennau | Canran % |
|---|---|---|
| Benyw | 13126 | 76.2 |
| Gwryw | 4095 | 23.8 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17221** | **100.00** |

### Ailbennu Rhywedd

Nid ydym yn gofyn i staff a ydynt yn ystyried, yn cael neu wedi cael triniaeth ailbennu rhywedd felly nid oes amcangyfrif o'r grŵp staff hwn.

### Priodas a Phartneriaeth Sifil

Mae Tabl 5 yn dangos bod y categorïau “Sengl” a “Phriod” yn cyfrif am y rhan fwyaf o statws priodasol a phartneriaeth sifil ein staff, sef 80.4%. Nododd cyfanswm o 34.1% o'n staff eu bod yn “Sengl”, a nododd 46.3% o'n staff eu bod yn briod. Nododd 1.5% o'r staff eu bod mewn Partneriaeth Sifil.

**Tabl 5**

| Statws Priodasol | Cyfrif pennau | Canran % |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Priod | 7971 | 46.3 |
| Sengl | 5877 | 34.1 |
| Amhenodol | 2007 | 11.7 |
| Wedi ysgaru | 879 | 5.1 |
| Mewn partneriaeth sifil | 259 | 1.5 |
| Gweddw | 123 | 0.7 |
| Wedi gwahanu'n gyfreithiol | 105 | 0.6 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17221** | **100.00** |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 2.1% ohonynt ar absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu. Mae Tabl 6 yn dangos ein data. Tabl 6

| **Statws Aseiniad** | **Cyfrif pennau** | **Canran %** |
|---|---|---|
| Mamolaeth a Mabwysiadu | 363 | 2.1% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17221** | **100.00** |

**Crefydd**

Fel nifer o nodweddion gwarchodedig eraill, mae crefydd yn gategori y mae hunan-ddatganiadau staff ar ESR yn effeithio'n sylweddol arno. Mae Tabl 7 yn dangos ein data. Mae cyfanswm o 77.65% o staff wedi darparu'r wybodaeth hon, gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn nodi eu bod yn Gristnogion.

**Tabl 7**

| **Cred Grefyddol** | **Cyfrif pennau** | **Canran %** |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 6283 | 36.5 |
| Amhenodol | 3851 | 22.4 |
| Anffyddiaeth | 3075 | 17.9 |
| Nid wyf am ddatgelu fy nghrefydd/cred | 1766 | 10.3 |
| Arall | 1581 | 9.2 |
| Islam | 353 | 2 |
| Hindŵaeth | 195 | 1.1 |
| Bwdhaeth | 89 | 0.5 |
| Sikhiaeth | 16 | 0.09 |
| Iddewiaeth | 8 | 0.04 |
| Jainiaeth | 4 | 0.02 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Terfynol** | **17221** | **100.00** |

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Mae Cyfeiriadedd Rhywiol yn nodwedd warchodedig arall sy'n dibynnu ar hunanddatganiad. Mae Tabl 8 yn dangos ein data. Mae cyfanswm o 77.6% o staff wedi dewis darparu eu cyfeiriadedd rhywiol ar ESR. Tabl 8

| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Cyfrif pennau** | **Canran %** |
|---|---|---|
| Heterorywiol neu Syth | 11994 | 69.6 |
| Amhenodol | 3864 | 22.4 |
| Heb ei nodi (gofynnwyd i'r person ond gwrthododd ymateb) | 640 | 3.7 |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 407 | 2.4 |
| Deurywiol | 251 | 1.5 |
| Heb benderfynu | 38 | 0.2 |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall heb ei restru | 27 | 0.2 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **17221** | **100.00** |